ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Buddsoddi mewn gweithlu rhagorol




Chwefror 2019

© Hawlfraint y Goron 2019 WG37001 ISBN digidol 978 1 78964 705 1

# Buddsoddi mewn gweithlu rhagorol –
# cynnydd wrth ddatblygu cynllun datblygu'r gweithlu

## Cefndir

Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*, yn amlinellu ein gweledigaeth i godi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac y mae'r cyhoedd yn ymddiried ynddi.

Yn y cynllun gweithredu, nodwn ein hymrwymiad i ddatblygu cynllun datblygu'r gweithlu cyffredin ar gyfer ysgolion.

Er mwyn parhau i godi safonau i bawb a sicrhau system y mae'r cyhoedd yn ymddiried ynddi, byddwn yn cydweithio i gefnogi athrawon a staff i fod yn ddysgwyr proffesiynol gydol oes, i leihau biwrocratiaeth a llwyth gwaith diangen, ac i ysgogi ac ysbrydoli pob plentyn a pherson ifanc. Mae *Cenhadaeth ein cenedl* yn glir y bydd y proffesiwn addysgu yn:

- **broffesiwn o safon uchel** sy'n gydweithredol ac yn cael ei ysgogi gan ddealltwriaeth ddofn o addysgeg a gwybodaeth bwnc
- **ymgymryd â gwaith ymchwil,** yn hyddysg ac yn dysgu o ragoriaeth ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- **atyniadol** gyda morâl uchel a llawer o foddhad proffesiynol
- **cael cefnogaeth dda** gan ystod o weithwyr cymorth dysgu proffesiynol sy'n gallu darparu'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pob plentyn
- **edrych tuag allan** ac wedi ymrwymo i godi safonau o fewn ysgolion a rhyngddynt
- **creu** amgylcheddau bywiog, cynnes a gofalgar sy'n ysbrydoli dysgu
- **cael ei arwain** yn dda gan arweinwyr a fydd yn sicrhau y gall pob athro wella drwy gydweithio, arloesi, dysgu proffesiynol a chyfleoedd i roi arweinyddiaeth broffesiynol i eraill.

Yn ogystal, rydym yn cydnabod y bydd y gweithlu ysgolion yn arwain ac yn llywio'r gwaith rydym wedi ei nodi yn y blaenoriaethau a'r meysydd polisi allweddol canlynol.

- **Y cwricwlwm newydd** – y graddau y mae athrawon, arweinwyr ac oedolion sy'n cefnogi dysgu wedi datblygu ymarfer sy'n gyson ag anghenion y cwricwlwm newydd.
- **Dysgu proffesiynol** – darparu dysgu proffesiynol ym mhob rhan o'r gweithlu ac ymgysylltu â'r gweithlu er mwyn cyflawni'r newidiadau sy'n ofynnol drwy ddiwygio ar lefel ystafell ddosbarth, ysgol, rhanbarth a system.

- **Yr iaith Gymraeg** – cynyddu nifer ac ansawdd y staff addysgu a chymorth sydd gennym yn y system i roi addysg mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg.
- **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** – nifer ac ansawdd y bobl sydd gennym yn y system i arwain y ddarpariaeth i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol.
- **Ysgolion bach a gwledig** – darparu arweinyddiaeth, dysgu ac addysgu yn y sector ysgolion bach a gwledig.
- **Cyflenwi** – lefel y galw am wasanaethau athrawon cyflenwi a rhai dros dro, ac ansawdd athrawon cyflenwi yn y system.

Mae'r adroddiad hwn ar gynnydd wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â Chyngor y Gweithlu Addysg. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r gweithlu cyfan mewn ysgolion (gan gynnwys athrawon, penaethiaid, cynorthwywyr addysgu ac eraill sy'n cefnogi dysgwyr neu athrawon)[1], yn darparu'r newyddion diweddaraf am yr hyn rydym wedi ei wneud hyd yma ac yn nodi'r camau nesaf a gynlluniwyd gennym.

[1] Mae gwybodaeth bellach am y gweithlu ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru ar StatsCymru yn statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/teachers-and-support-staff/School-Staff; ac o Gyngor y Gweithlu Addysg yn www.ewc.wales/site/index.php/en/policy-hub/education-workforce-statistics.html

## Beth rydym wedi'i wneud hyd yma

Eleni, rydym wedi cymryd cryn dipyn o amser i wrando ar y proffesiwn, siarad â phenaethiaid ac ymgynghori â'n rhanddeiliaid. Nawr, yn fwy nag erioed o'r blaen, mae ein dulliau ymgysylltu yn well, er enghraifft, drwy ein cyfres o gynadleddau penaethiaid ac athrawon sydd wedi gweithio gyda ni i ddatblygu a chynllunio ein cwricwlwm newydd. Gwelsom fod yr ymgysylltu parhaus hwn yn werthfawr ac yn llywio ein gwybodaeth am bolisïau yn well, yn benodol o ran datblygu'r gweithlu.

Mae gweithgareddau penodol i gefnogi a datblygu ein gweithlu eisoes yn mynd rhagddynt.

**Rydym wedi diwygio'r ffordd yr achredir hyfforddiant cychwynnol athrawon.** O fis Medi 2019, bydd pob rhaglen addysg gychwynnol i athrawon a gynigir gan bartneriaethau sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn cael ei hasesu, ei gwerthuso a'i monitro yn erbyn *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*[2]. Bydd bwrdd achredu[3] Addysg Gychwynnol Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg yn cyflawni'r swyddogaeth hon. Mae Achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yn ddull o gyflwyno prosesau sicrhau ansawdd cyn gynted â phosibl yng ngyrfa athro ac yn ffactor hanfodol wrth atgyfnerthu perfformiad addysgol mewn ysgolion. Bydd rhoi rhwymedigaeth ar Gyngor y Gweithlu Addysg i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon unigol yn golygu y gellir ystyried yn fwy penodol sut y bydd y rhaglenni yn codi safon y ddarpariaeth, ac yn denu ymgeiswyr â'r sgiliau, y cymwysterau a'r doniau cywir i ddechrau gyrfa ym maes addysgu. Bydd pob darpariaeth llawn amser, rhan-amser a seiliedig ar waith yn cael ei chynnwys a bydd yn gwella ansawdd y ddarpariaeth ac yn ehangu mynediad at y ddarpariaeth.

**Rydym wedi sefydlu safonau newydd ar gyfer cynorthwywyr addysgu, athrawon a phenaethiaid.** Mae'r safonau newydd wedi cael eu datblygu gyda'r proffesiwn, ar gyfer y proffesiwn, i fod yn berthnasol i waith pob athro o ddydd i ddydd ac yn sefydlu cyfres gyffredin o werthoedd a nodweddion, a ddylai ysgogi pawb sy'n gweithio gyda dysgwyr. Mae'r safonau'n canolbwyntio ar elfennau hanfodol addysgeg, cydweithredu, arweinyddiaeth, arloesedd a dysgu proffesiynol – a bydd yn helpu i ategu'r gwaith o ddatblygu'r proffesiwn addysgu wrth iddo arwain y broses o drawsnewid ein system addysg. Mae'r safonau hefyd yn nodi'r disgwyliad i ymarferwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u defnydd o'r Gymraeg, yn ogystal ag ymestyn sgiliau a chymhwysedd y dysgwyr o ran y Gymraeg.

---

[2] beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/meini-prawf-ar-gyfer-achredu-rhaglenni-addysg-gychwynnol-athrawon-yng-nghymru.pdf
[3] www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu-aga/bwrdd-achrediad-addysg-gychwynnol-athrawon-aga.html

**Gan adeiladu ar ein hymrwymiad i degwch mewn addysg, rydym wedi creu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer nodi a chefnogi pob dysgwr ag ADY ym mhob lleoliad iaith.** Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 mewn grym o fis Medi 2020 a chaiff y system bresennol ei dileu yn raddol nes y bydd wedi diflannu'n llwyr erbyn mis Awst 2023. Y bwriad yw sicrhau bod fersiwn derfynol y cod ADY ar gael erbyn mis Ionawr 2020. Mae'r Ddeddf yn rhan o raglen trawsnewid ADY ehangach; elfen allweddol ohoni yw datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer y gweithlu addysg, i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr sydd ag ADY yn yr ystafell ddosbarth, yn ogystal â'i gwneud yn haws iddynt gael gafael ar gymorth, gwybodaeth a chyngor arbenigol. Bydd sicrhau bod gweithlu â sgiliau digonol ar gael yn golygu y gellir cyflwyno'r fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer ADY a chefnogi'r gwaith o'i gyflwyno gan gyfrannu at amcanion cyffredinol y rhaglen trawsnewid ADY.

**Rydym wedi atgyfnerthu ansawdd y trefniadau ar gyfer caffael athrawon cyflenwi.** Rydym wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod gennym fframwaith ar gyfer tendro sy'n addas at y diben ac sy'n mynd i'r afael â'n hegwyddorion Gwaith Teg. Bu diddordeb mawr yn y tendr hwn a chaiff fframwaith newydd ei ddyfarnu yn ystod y gwanwyn i'w roi ar waith ym mis Medi 2019. Neilltuwyd £2.7m o gyllid i gefnogi cynlluniau peilot clwstwr mewn ysgolion o fewn 15 awdurdod lleol i gefnogi athrawon cyflenwi (50 mewn dros 100 o ysgolion) yn eu blynyddoedd cynnar o addysgu. Mae a wnelo'r dull hwn ag annog dulliau gweithredu mwy hyblyg ac arloesol o ymdrin â darparu athrawon cyflenwi. O dan ein cynlluniau, caiff ein hathrawon cyflenwi eu cefnogi yn yr un ffordd ag athrawon parhaol ond gan sicrhau ar yr un pryd bod digon o athrawon cyflenwi ar gael mewn ysgolion i fodloni'r galw mewn meysydd fel ADY ac addysg cyfrwng Cymraeg.

**Rydym wedi sefydlu nifer o weithgorau undebau llafur i atgyfnerthu ein hymgysylltiad ymhellach.** Er enghraifft, gwnaethom sefydlu'r Gweithgor Cyflenwi a'r Fforwm Partneriaeth Cyflog ac Amodau. Hefyd, rydym yn cwrdd yn rheolaidd â phob un o'r undebau llafur ym maes addysg, yn unigol ac ar y cyd, i drafod amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar y gweithlu.

**Rydym wedi cyhoeddi'r *Cynllun gweithredu addysg wledig*[4]** i gydnabod yr heriau penodol sy'n wynebu cymunedau gwledig. Hefyd, rydym wedi cyflwyno Grant Ysgolion Bach a Gwledig newydd i awdurdodau lleol er mwyn annog arloesedd, codi safonau a chefnogi gwaith cydweithredol. Mae heriau gwahanol i'r gweithlu mewn ysgolion bach a gwledig, a'r anghenion datblygu canlyniadol. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwaith cryfach yn seiliedig ar glystyrau a chronni adnoddau i gyflogi arbenigwyr.

[4] beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/cynllun-gweithredu-addysg-wledig-1.pdf

**Rydym wedi ariannu ysgolion i ddatblygu dysgu proffesiynol, ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd.** Mae'r Ysgolion Dysgu Proffesiynol Arloesi hyn wedi bod yn helpu i ddatblygu dysgu proffesiynol ar gyfer rhoi cwricwlwm newydd ar waith. Canolbwyntiodd eu gwaith cynnar ar ddatblygu agweddau ar ddeuddeg addysgeg *Dyfodol Llwyddiannus*, gan weithio ar brosiectau peilot a helpu i gyflwyno rhaglenni dysgu proffesiynol. Mae eu ffocws wedi bod ar dreialu agweddau ar y cwricwlwm newydd wrth iddynt gael eu creu gan ysgolion eraill fel rhan o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae sampl gynrychioliadol o ysgolion ledled y wlad wedi bod yn gweithio i ddatblygu ysgolion fel sefydliadau dysgu ac fel rhan o hyn maent yn creu, yn rhannu ac yn manteisio ar gyfleoedd dysgu, mewn ysgolion, rhwng ysgolion a gyda sefydliadau allanol.

**Rydym wedi lansio'r model dysgu proffesiynol sy'n nodi** *Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.* Ei fwriad yw paratoi'r gweithlu ar gyfer y cwricwlwm newydd, a gwneud addysgu yng Nghymru yn ystyriaeth fwy atyniadol i ddarpar fyfyrwyr. Byddwn yn cefnogi athrawon yng Nghymru i fod yn ddysgwyr proffesiynol gydol oes sy'n myfyrio ar eu harfer eu hunain ac yn ei wella i ysgogi ac ysbrydoli'r plant a'r bobl ifanc yn eu gofal.

**Rydym wedi cyhoeddi'r buddsoddiad mwyaf erioed mewn cymorth i athrawon ers datganoli: Gwerthfawrogi ein Hathrawon – Buddsoddi yn eu Rhagoriaeth[5].** Bydd y dull hwn, a gefnogir gan £24m o gyllid ychwanegol, yn rhoi'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen ar ysgolion ar gyfer dysgu proffesiynol ac yn eu helpu i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Bydd y dull arloesol newydd hwn yn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddysgu'r dysgwyr gan sicrhau hefyd fod staff cyflenwi ar gael fel y gall aelodau o staff gael eu rhyddhau ar gyfer eu dysgu proffesiynol eu hunain.

**Rydym wedi helpu i ddatblygu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.** Drwy waith Cyngor y Gweithlu Addysg, rydym wedi darparu dull effeithiol i bob ymarferydd gofnodi eu dysgu proffesiynol mewn datrysiad safonol, cenedlaethol. Gall pob ymarferydd gynllunio, cofnodi, myfyrio mewn un lle, drwy gydol eu gyrfa a chymryd perchenogaeth o'u dysgu proffesiynol eu hunain.

**Rydym wedi cyhoeddi datblygiad llwybr seiliedig ar addysgu i gyflogaeth sydd wedi ei fireinio a'i atgyfnerthu.** Bwriedir i'r llwybr amgen newydd hwn i addysgu chwyldroi'r ffordd y darparir Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru. Mae'n cynnwys TAR rhan amser newydd a fydd yn chwalu rhwystrau a allai gael eu hachos gan leoliad neu bellter o brifysgol. Hefyd, bydd Llwybr Seiliedig ar Gyflogaeth newydd, yn galluogi athro dan hyfforddiant i gael ei gyflogi gan ysgolion o'r cychwyn cyntaf. Byddai'r TAR rhan amser a'r Llwybr Seiliedig ar Gyflogaeth yn galluogi athrawon dan

[5] beta.llyw.cymru/node/6301

hyfforddiant i gynnal eu hymrwymiadau presennol, gan gynnwys cyflogaeth ac incwm, wrth astudio i fod yn athro.

**Rydym wedi sefydlu'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol (NAEL)** i wella arfer arweinyddiaeth ym mhob rhan o'r system ac i wneud arweinyddiaeth yn fwy deniadol i'r proffesiwn. Gwnaethom ymrwymo i ddatblygu NAEL fel sefydliad strategol gyda diwylliant cadarnhaol a chynhwysol a dull llywodraethu cadarn i gyfrannu at ddatblygu galluoedd proffesiynol arweinwyr cyfredol a darpar arweinwyr yn y system addysg yng Nghymru. Maent yn darparu cydlyniaeth a sicrwydd ansawdd ar gyfer yr ystod o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth addysgol sydd ar gael. Er enghraifft, cymeradwyo'r rhaglen ar gyfer pob pennaeth newydd a phennaeth dros dro yn eu dwy flynedd gyntaf o fod yn bennaeth, gan gynnwys 150 yn y flwyddyn gyntaf.

**Gwnaethom gomisiynu arolwg o'r gweithlu**, a gynhaliwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg. Mae'r canfyddiadau hyn wedi llywio ein gwaith, er enghraifft, wrth ddatblygu ein dull ar gyfer dysgu proffesiynol, lleihau'r llwyth gwaith a buddsoddi mewn rhaglenni gyda rhanbarthau ar les y proffesiwn.

**Rydym wedi defnyddio'r cyflog a'r amodau datganoledig newydd** i atgyfnerthu ein cydweithrediad ag undebau llafur. Rydym hefyd wedi comisiynu adolygiad annibynnol, *Addysgu proffesiwn gwerthfawr*, sy'n nodi ein hargymhellion ar gyfer gyrfa, amodau a fframwaith cyflog ar gyfer athrawon ysgol yng Nghymru.

**Rydym wedi datblygu ymhellach ein gwaith cyfunol i recriwtio a chadw athrawon.** Rydym wedi sefydlu Bwrdd Cynghori Recriwtio a Chadw Athrawon i ystyried y materion amrywiol sy'n effeithio ar ba mor atyniadol yw'r proffesiwn. Mae'r consortia rhanbarthol wedi arwain yr ymgyrch #darganfodaddysgu[6]. Rydym wedi gweithio ar y cyd ag Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg a chonsortia rhanbarthol i gyfleu negeseuon clir a chyson ar lwyth gwaith.

**Rydym wedi gwneud gwaith cynnar gyda chonsortia rhanbarthol i adeiladu'r llinell sylfaen ar gyfer rhoi'r cynllun gweithredu *Y Gymraeg mewn Addysg 2017–21*** ar waith a blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, fel y nodir yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Rydym wedi casglu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg ymarferwyr drwy'r consortia rhanbarthol, Cyngor y Gweithlu Addysg a PLASC i lywio ein gwaith o gynllunio'r gweithlu.

**Rydym wedi ehangu'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ac wedi ei werthuso** i ddarparu mwy o gyfleoedd a chyfleoedd gwell i fwy o ymarferwyr gael gafael ar hyfforddiant Cymraeg dwys. Mae ein buddsoddiad o tua £3m wedi gweld 289 o

[6] twitter.com/search?q=%23darganfodaddysgu&src=typd

ymarferwyr yn cael hyfforddiant drwy'r Cynllun Sabothol yn ystod 2017/18. Comisiynwyd gwerthusiad llawn er mwyn helpu i lywio hyfforddiant ymarferwyr Cymraeg yn y dyfodol.

**Rydym wedi cyflwyno cymhelliant cyfrwng Cymraeg newydd Iaith Athrawon Yfory (IAY)** a fydd ar gael i athrawon TAR uwchradd dan hyfforddiant sy'n hyfforddi i addysgu pob arbenigedd pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Gwnaeth y garfan gyntaf i ddefnyddio'r IAY gofrestru ym mis Medi 2018.

**Rydym wedi lansio *Fframwaith ar gyfer gweithredu* i gefnogi athrawon a staff cymorth eraill sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion.** Mae adborth gan y rhai sy'n gweithio yn y sector wedi dangos bod y diffyg gofynion o ran cymwysterau a'r cwricwlwm yn aml yn arwain at gyfleoedd coll ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yn debyg i'r rhai a ddarperir i gydweithwyr sy'n gweithio ym maes addysg brif ffrwd neu addysg arbennig. Yn aml, fel y dysgwyr sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol neu mewn uned cyfeirio disgyblion, mae staff sy'n gweithio yn y sector yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyfleoedd i ailymuno â'r gweithlu prif ffrwd. Nodir bod hyn oherwydd y profiadau cwricwlaidd cyfyngedig a gynigir gan sefydliadau addysg heblaw yn yr ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion.

**Rydym wedi ariannu partneriaethau ADY a phedwar arweinydd trawsnewid mewn awdurdodau lleol i gefnogi dysgu proffesiynol.** Mae'r arweinwyr trawsnewid yn gyfrifol am gefnogi awdurdodau lleol, ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a byrddau iechyd lleol i baratoi ar gyfer y system newydd a'i rhoi ar waith. Bydd y swyddi hyn yn chwarae rhan hollbwysig yn ein strategaeth weithredu gyffredinol drwy sicrhau bod gwasanaethau yn hollol barod i weithredu'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd. Byddant yn goruchwylio hyfforddiant a dysgu proffesiynol ac yn codi ymwybyddiaeth ac yn hwyluso gwelliannau mewn gwaith amlasiantaethol.

**Rydym wedi buddsoddi dros £1.2 miliwn dros ddwy flynedd i dreialu rheolwyr busnes mewn ysgolion cynradd gyda'r nod o leihau biwrocratiaeth i benaethiaid.** Mae'r cynllun peilot wedi cael ei ddatblygu i leihau llwyth gwaith penaethiaid a'u helpu i ganolbwyntio ar arwain dysgu ac dysgu a darparu lefelau gwell o gymorth i'r gweithlu. Mae'r rheolwyr busnes yn helpu o ran rheolaeth ariannol a chyllidebol, recriwtio a chadw, diogelu, iechyd a diogelwch a swyddogaethau cymorth busnes eraill.

## Y camau nesaf

Drwy weithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg a'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, byddwn yn cyhoeddi cynllun y gweithlu yn ystod haf 2019.

Bydd ein cynllun yn seiliedig ar ddatblygu y dwy nodwedd sylfaenol allweddol canlynol.

- Cynllunio'r gweithlu mewn ffordd effeithiol yn seiliedig ar **lefel fanwl o wybodaeth a data** am yr athrawon a'r staff eraill sy'n gweithio yn ein hysgolion.
- **Cydweithredu a chydweithio** sefydliadol i feithrin a rhannu arbenigedd a newid diwylliant.

Mae angen i ni weithio gyda'n partneriaid a gwneud mwy o waith dadansoddi manwl er mwyn llywio'r broses o gynllunio'r gweithlu yn well, gan gynnwys rhagweld olyniaeth, cynaliadwyedd, datblygiad staff a deall yn llwyr yr heriau cadw i bob ysgol. Byddwn hefyd yn cynnwys ymchwil pellach ar batrymau gwaith, trefniadau gweithio hyblyg ac amodau y gall pob aelod o staff weithio ynddynt. Gwneir gwaith dadansoddi pellach hefyd ar ystod y pynciau a addysgir, a bydd sgiliau Cymraeg y gweithlu yn ogystal â chyfrifoldebau arwain yn cyfrannu ymhellach at y darlun ac sut y bydd hyn yn cefnogi'r cwricwlwm newydd.